

PHILLIPS, JOHN (1810 - 1867), gweinidog gyda'r Methodistiaid Calфинаidd, a phrifathro cyntaf Coleg Normal Bangor

**Enw:** John Phillips

**Dyddiad geni:** 1810

**Dyddiad marw:** 1867

**Priod:** Eleanor Phillips (née Parry)

**Rhiant:** Mary Phillips (née Jones)

**Rhiant:** David Phillips

**Rhyw:** Gwryw

**Galwedigaeth:** gweinidog gyda'r Methodistiaid Calфинаidd, a phrifathro cyntaf Coleg Normal Bangor

**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Addysg

**Awdur:** Moelwyn Idwal Williams

Ganwyd 1810 ym Mhontrhydfendigaid, mab hynaf David a Mary Phillips, Tymawr. Yr oedd ei rieni yn dlawd, a threuliodd ran helaeth o'i flynyddoedd cyntaf gyda'i nain, o du ei fam, sef Jane Jones, Pontrhydfendigaid, a oedd yn gyfnither i'r [Parch. John Williams](#), Lledrod (1747 - 1831). Cafodd ei addysg foreol gartref ac yn yr ysgol Sul. Pan tua 14 oed daeth o dan ddylanwad y diwygiad yn ei gymdogaeth, ac aeth am ysbaid i ysgol enwog Ystradmeurig. Yn 1829 aeth i Langeitho i ysgol a oedd y pryd hwnnw o dan ofal [Lewis Edwards \(Dr. Lewis Edwards\)](#), y Bala, wedi hynny), lle y gweithiodd yn egniol iawn â'i wersi. Yn 1831 penodwyd ef yn genhadwr i Raeadr Gwy, sir Faesyfed, a bu yno yn cadw ysgol ddyddiol ac yn pregethu. Y flwyddyn ganlynol (1832) aeth ar daith bregethu yn Sir Feirionnydd a Sir Gaernarfon, ac enillodd lawer o boblogrwydd fel pregethwr. Yna, ar ôl cyfnod o afiechyd, aeth ef a'i gyfaill a chyd-fyfyriwr, [Lewis Edwards](#), i Brifysgol Edinburgh. Ymadawodd oddi yno ym Mai 1835, a derbyniodd alwad i Dreffynnon i fugeilio eglwys neilltuol Gymraeg y Methodistiaid Calфинаidd. Ordeiniwyd ef yn weinidog yng nghymdeithasfa y Bala, Mehefin 1837. Yn ystod ei weinidogaeth yn Nhreffynnon, priododd ag Eleanor, merch Robert Parry, y Frigan, Llaneugrad, sir Fôn, a symudodd yno yn 1843. Y flwyddyn honno, ar awgrymiad [Syr Hugh Owen](#) (1804 - 1881), penodwyd ef yn oruchwyliwr tros Ogledd Cymru i'r Gymdeithas Ysgolion Brutanaidd a Thramor. Yn 1847 symudodd i Fangor i fod yn fugail ar eglwys y Tabernacl, ond rhoddodd ofal yr eglwys hon i fyny'n wirfoddol oherwydd ei orchwylion fel arolygydd Cymdeithas yr Ysgolion Brutanaidd a Thramor. Llafuriodd yn galed i geisio deffro'r wlad i sylweddoli'r angen am adeiladu ysgolion ac i hyfforddi athrawon cymwys i ofalu amdanynt. Trwyddo ef yn bennaf y sefydlwyd y Coleg Normal ym Mangor. Costiodd yr adeilad oddeutu £13,000; ni chafwyd ond £2,000 gan y Llywodraeth, a bu Phillips yn gyfrwng i gasglu y swm o £11,000 i gyfarfod â'r cyfanswm. Pan agorwyd y coleg yn Awst 1863, penodwyd ef yn brifathro arno. Yr oedd Phillips yn bregethwr a darlithydd llwyddiannus dros ben. Traddododd dair darlith bwysig rhwng 1850 a 1852, a chyhoeddwyd hwynt o dan y teitlau canlynol: (1) *Dadl Bangor ... ar Anghydfur fiaeth neu Eglwys Loegr ac Ymneulltuaeth* (Caernarfon, [James Rees](#), 1852); (2) *Y Ddarlith ar Babyddiaeth, Eglwys Loegr, ac Ymneulltuaeth* (Liverpool, [J. Lloyd](#), 1850); (3) *Popery Better than Dissent! What!!! And who says it!!!* (Carnarvon, [James Rees](#), 1850). Bu farw 9 Hydref 1867, yn Brynteg, sir Fôn, a'i gladdu yn Llaneugrad. Gadawodd wraig a phump o blant.

## Awdur

Dr Moelwyn Idwal Williams

## Ffynonellau

NLW MSS 4254-6, 5479-82, 7825, 7827-8, 7830-1, 12678

H. Blackwell, [NLW MS 9269A: A Dictionary of Welsh Biography](#)

*Y Drysorfa*, 1867, 441

Benjamin Williams (Gwynionydd) *Enwogion Ceredigion* (1869), 191

W. J. Owen, *Cofiant y Parchedig John Phillips, Bangor* (Caernarfon 1912)

*Y Drysorfa*, Chwefror 1895

*Y Traethodydd*, Ionawr 1919

*Y Geninen*, Mawrth 1889

*Cymru (O.M.E.)*, xxix, 85

Ffowc Williams, 'The educational aims of pioneers in elementary Welsh education 1730-1870' traethawd M.A. Prifysgol Cymru, 1929 (yn Ll.G.C.)

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: [13145376298083720560](#)

Wikidata: [Q20748851](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

